



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

Beth mae'n ei olygu i fusnesau yng Nghymru

Cynnwys

Cyflwyniad

Masnach mewn nwyddau

Masnach mewn gwasanaethau a buddsoddi

Caffael

Cyflwyniad

Ar 12 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Y Berthynas Newydd â'r Undeb Ewropeaidd Beth mae'n ei olygu i Gymru*¹. Mae'r ddogfen yn nodi mewn ffordd wrthrychol beth sydd wedi newid i ddinasyddion, busnesau a'n cymunedau yng Nghymru ers i ni adael y cyfnod pontio ddiwedd mis Rhagfyr 2020.

Fel rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, mae ein busnesau wedi elwa ar ryddid i symud o ran nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Gwnaeth diwedd y cyfnod pontio esgor ar y newid mwyaf yn ein perthynas fasnachu mewn degawdau. Erbyn hyn, nid yw rheolau'r farchnad fewnol yn gymwys. Roedd y rheolau hyn yn sicrhau nad oedd rhwystrau i fasnach a bod safonau cyson rhwng gwledydd.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) bellach yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein perthynas fasnachu â'r Undeb Ewropeaidd, ac o ganlyniad mae nifer o reolau newydd y mae angen i'n busnesau eu deall a rhwystrau y mae angen iddynt eu goresgyn.

Rydym yn cydnabod y bydd ar fusnesau yng Nghymru angen mwy o fanylion am y berthynas newydd a'r newidiadau ymarferol y bydd angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt. Felly, rydym yn cyhoeddi'r ddogfen dechnegol hon, sydd wedi'i hanelu at fusnesau ac sy'n adeiladu ar yr wybodaeth yn *Y Berthynas Newydd â'r Undeb Ewropeaidd Beth mae'n ei olygu i Gymru* ac sy'n cyfeirio at ragor o wybodaeth y bydd ei hangen wrth i fusnesau yng Nghymru addasu i'r berthynas fasnachu newydd.

Mae'r newidiadau yn gymhleth a bydd y goblygiadau i fusnesau yng Nghymru yn dibynnu ar ba sector y mae'r busnes ynddo a natur y prosesau busnes y mae'n eu defnyddio.

Mae rhagor o gyngor a chymorth ar gael drwy Borth Cyfnod Pontio'r UE Llywodraeth Cymru: <https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy>

1 <https://llyw.cymru/y-berthynas-newydd-ar-ue-beth-maen-ei-olygu-i-gymru>

Masnach mewn nwyddau

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yn ymdrin â masnachu nwyddau yn Rhan 2, Teitl 1 y cytundeb. Ceir pum pennod gyda dau Brotoocol ategol ac un Atodiad ategol:

- Pennod 1: Cynnwys Triniaeth Genedlaethol a mynediad i'r farchnad i nwyddau (gan gynnwys rhwymedïau masnach)
- Pennod 2: Y Cyd-destun Strategol Rheolau Tarddiad
- Pennod 3: Yr Heriau Ariannol Rhwystrau Technegol i Fasnach
- Pennod 4: Sut y Lluniwyd y Gyllideb Mesurau Iechydol a Ffytioiechydol (SPS)
- Pennod 5: Hwyluso Tollau Tramor a Masnach.

Isod rydym yn ystyried beth mae'r cytundeb yn ei ddweud a'r newidiadau a'r goblygiadau allweddol i fusnesau a chyflogwyr. Rydym yn ystyried penodau un a dau gyda'i gilydd gan fod cyswllt anorfod rhyngddynt wrth ystyried a oes angen talu tariffau nawr i anfon nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd.

Penodau 1 a 2: Mynediad i'r Farchnad a Rheolau Tarddiad

Y rheolau

Mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno na fydd unrhyw dariffau na chwotâu ar unrhyw nwyddau, ond dim ond os yw'r nwyddau a gynhyrchir yn cyfrif fel rhai 'tarddiadol' (gweler isod am eithriadau).

Bydd nwyddau annharddiadol o'r Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd yn agored i'r cyfraddau tariffau a osodir gan yr Undeb Ewropeaidd (Tariff Allanol Cyffredin²) a'r Deyrnas Unedig (Tariff Byd-eang y Deyrnas Unedig³). Mae'r tariffau hyn yn amrywio rhwng cynhyrchion a gallant fod yn eithaf uchel, yn enwedig ar gyfer cynnyrch bwyd-amaeth.

Er mwyn i gynnyrch gyfrif fel un tarddiadol, mae'r bennod ar Reolau Tarddiad yn dweud bod rhaid iddo:

- a. fod 'wedi'i gael yn gyfan gwbl' yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cyfeirio gan amlaf at nwyddau sy'n digwydd yn naturiol mewn un wlad/rhanbarth, fel planhigion, mwynau, neu anifeiliaid sydd wedi'u geni a'u bridio; neu
- b. fod wedi'i gynhyrchu/weithgynhyrchu yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd oddeunyddiau tarddiadol yn unig (er enghraifft, cynhwysion neu gydrannau) sy'n dod o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cyfeirio at gynhyrchu cyfan gwbl, o ddeunyddiau crai i gynnyrch terfynol, sy'n dod o un wlad/rhanbarth; neu
- c. fod wedi'i gynhyrchu/weithgynhyrchu yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd oddeunyddiau tarddiadol ac annharddiadol sy'n bodloni rheolau penodol ar gyfer y cynnyrch hwnnw. Ystyr annharddiadol yw deunyddiau yn y gadwyn gyflenwi sy'n dod o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig (trydedd wlad). Os defnyddir deunyddiau annharddiadol yna rhaid bodloni rheolau penodol – sef rheolau tarddiad cynnyrch-benodol (PSR).

2 https://ec.europa.eu/taxation_customs/business/calculation-customs-duties/what-is-common-customs-tariff/taric_en

3 <https://www.gov.uk/trade-tariff>

Er mwyn allforio i'r Undeb Ewropeaidd yn ddi-dariff, mae'r rheolau hyn yn golygu:

- **Y caniateir cyfuno dwyochrog.** Bydd busnesau'n gallu caffael a defnyddio deunyddiau tarddiadol o'r Undeb Ewropeaidd fel petaent wedi dod o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion bodloni'r gofynion rheolau tarddiad a bod yn gymwys i gael dim tariffau ar allforion i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yr un peth yn berthnasol i allforwyr yr Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig – byddant yn gallu defnyddio deunyddiau a chydannau'r Deyrnas Unedig. Er mwyn defnyddio cyfuno dwyochrog, rhaid i'r deunyddiau gan y parti arall gael eu prosesu ymhellach. Mae'r rhestr lawn o brosesau nad ydynt yn gwneud deunyddiau yn rhai tarddiadol ar gael yn erthygl ORIG.7 Insufficient Production yn y TCA.
- **Ni chaniateir cyfuno lletraws.** Ni chaiff busnesau gyfuno a chyfrif deunyddiau o drydedd wlad arall (y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig) fel deunyddiau 'tarddiadol' – hyd yn oed os oes gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd gytundeb masnach â'r un (drydedd) wlad er enghraifft, Japan.
- Gall busnesau ddefnyddio deunyddiau annharddiadol o drydedd wlad mewn cynnyrch ar yr amod bod y cynnyrch yn bodloni'r rheolau cynnyrch-benodol sy'n berthnasol iddo, a chyn belled â bod y gwaith cynhyrchu a wneir ar y cynnyrch yn ddigonol⁴.

Dyma rai rheolau cynnyrch-benodol a allai fod yn bwysig i fusnesau Cymru:

- Bydd angen i **gynhyrchion fferyllol** fod â MaxNOM⁵ 50% (EXW), neu gydymffurfio â phroses gynhyrchu benodol, neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir.
- Bydd angen i'r **rhan fwyaf o gynhyrchion gwrtait** fod â MaxNOM 40% (EXW), neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir (ar yr amod nad yw'r deunyddiau annharddiadol yn fwy nag 20% o bris ôl-waith y cynnyrch terfynol).
- Bydd angen i'r **rhan fwyaf o olewau naws a resinoidau; cymysgeddau persawr, cosmetig ac ymolchi** fod â MaxNOM 50% (EXW), neu gydymffurfio â phroses gynhyrchu benodol, neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir.
- Bydd angen i'r **rhan fwyaf o gynhyrchion plastig** fod â MaxNOM 50% (EXW), neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir.
- Bydd angen i'r **rhan fwyaf o gynhyrchion rwber** fod â MaxNOM 50% (EXW), neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir (er y gellir ystyried teiars wedi'u hail-wadnu yn darddiadol os ydynt wedi'u hail-wadnu yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd).
- Ar gyfer tecstilau a chynhyrchion tecstilau**, y maen prawf pwysicaf yw bod y cynhyrchu yn cydymffurfio â phroses gynhyrchu benodol, fel gwehyddu neu wniö.
- Ar gyfer cynhyrchion haearn a dur**, y maen prawf pwysicaf yw bod y cynnyrch terfynol mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir (er bod rhai eithriadau i hyn).

4 Ceir arweiniad pellach ar PSRs ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/rules-of-origin-for-goods-moving-between-the-uk-and-eu>

5 Mae MaxNOM yn golygu uchafswm gwerth deunyddiau annharddiadol wedi'i fynegi fel canran.

- h) Bydd angen i'r **rhan fwyaf o beiriannau a chynhyrchion trydanol** fod â MaxNOM 50% (EXW), neu arwain at gynnyrch terfynol sydd mewn pennawd tariff gwahanol i'r deunyddiau annharddiadol a ddefnyddir.
- i) Bydd angen i **gerbydau modur** fod â MaxNOM 45% (EXW).

Trefniadau goddefiant ac eithriadau

Goddefiant

Mae'r cytundeb wedi sefydlu rhywfaint o hyblygrwydd drwy nodi rhai trefniadau goddefiant y gall busnesau eu defnyddio os na allant fodloni'r gofynion rheolau tarddiad priodol, neu reolau tarddiad cynnyrch-benodol. Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol drwyddi draw ac maent yn cyfeirio at gynnyrch penodol. Caniateir i nifer bach o ddeunyddiau, y mae'r Rheol Cynnyrch-benodol yn cyfyngu arnynt, gael eu defnyddio er hynny. Caiff y goddefiant hwn ei fynegi naill ai yn ôl pwysau neu werth y cynnyrch terfynol. Dyma enghreifftiau o'r goddefiannau a ganiateir:

- Ar gyfer nwyddau amaethyddol (ac eithrio cynnyrch pysgodfeydd), caiff busnesau ddal i hawlio statws tarddiadol a bod yn gymwys i gael dim tariffau os nad yw cyfanswm pwysau deunyddiau annharddiadol a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r cynnyrch yn fwy na 15% o bwysau'r cynnyrch.
- Ar gyfer unrhyw nwyddau eraill, mae busnesau'n dal i allu hawlio statws tarddiadol a bod yn gymwys ar gyfer dim tariffau os nad yw cyfanswm gwerth yr holl ddeunyddiau annharddiadol a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu'r cynnyrch yn fwy na 10% o bris ôl-waith y cynnyrch (a delir neu sy'n daladwy i'r cynhyrchwr lle gwneir y gwaith neu'r prosesu olaf).
- Gellir pennu bod set o gynhyrchion (hy rhywbeth sy'n cael ei werthu fel set, fel cyllyll a ffyrnc neu offer) yn darddiadol, ar yr amod nad yw gwerth yr elfennau annharddiadol yn fwy na 15% o bris ôl-waith y cynnyrch (a delir neu sy'n daladwy i'r cynhyrchwr lle gwneir y gwaith neu'r prosesu olaf).

Gweithredu graddol/fesul cam

Bydd rhai rheolau tarddiad gweithredu graddol/fesul cam yn caniatáu i gyfran uwch gychwynnol o ddeunyddiau annharddiadol gael eu defnyddio wrth weithgynhyrchu a masnachu cronaduron trydan a batris trydan, yn ogystal ag ar gyfer cerbydau wedi eu trydaneiddio:

- Bydd cronaduron trydan a batris trydan yn ddi-dariff os ydynt yn cynnwys o leiaf 30% o gynnwys tarddiadol tan ddiwedd 2023, ac ar ôl hynny mae angen iddynt gynnwys o leiaf 60% a 50% (y naill a'r llall) o gynnwys tarddiadol tan ddiwedd 2026.
- Bydd angen i gerbydau trydan fod ag o leiaf 40% o gynnwys tarddiadol tan ddiwedd 2023, ac yna o leiaf 45% o gynnwys tarddiadol tan ddiwedd 2026.

Ar ôl 2026, bydd y rheolau gweithredu graddol/fesul cam hyn yn dod i ben a bydd y rheolau cynnyrch-benodol (PSR) safonol yn berthnasol i'r cynhyrchion hyn.

Eithriadau

Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys rheolau tarddiad arbennig sy'n berthnasol i diwna tun a chynhyrchion alwminiwm. Os bydd busnesau'n allforio'r naill gynnyrch neu'r llall, mae'r rheol tarddiad arbennig yn caniatáu i gyfaint penodol o fasnachu ddigwydd heb

dariffau. Unwaith y bydd y cwota tarddiad arbennig wedi'i gyrraedd, bydd y rheolau tarddiad safonol yn berthnasol:

- Gellir masnachu hyd at 3,000 tunnell neu 4,000 tunnell (yn dibynnu ar yr union rywogaeth o bysgod) o diwna tun bob blwyddyn heb dariffau drwy'r rheolau tarddiad amgen.
- Gellir masnachu hyd at 95,000 tunnell o gynhyrchion alwminiwm penodol yn flynyddol heb dariffau, rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2023, drwy fodloni'r rheolau tarddiad arbennig amgen. Ar ôl 2023, bydd y cwota rheolau tarddiad arbennig yn gostwng o ran cynnyrch alwminiwm i 72,000 tunnell y flwyddyn rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2026, cyn gostyngiad pellach i lawr i 57,500 tunnell y flwyddyn o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Mae darpariaethau i adolygu hyn bob pum mlynedd.

Gweithredir y cwota ar sail y cyntaf i'r felin, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd yn ei weinyddu.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.gov.uk/transition

www.gov.uk/export-goods

www.gov.uk/government/publications/rules-of-origin-for-goods-moving-between-the-uk-and-eu

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Cyffredinol

Mae prynu a gwerthu nwyddau o'r / i'r Undeb Ewropeaidd bellach yn cael eu hystyried fel mewnfurion ac allfurion yn hytrach na rhai sy'n cyrraedd ac yn cael eu hanfon. Mae hyn yn golygu bod busnesau yn rhwym wrth yr un prosesau a rheolaethau cyffredinol â phrynu a gwerthu o/i farchnadoedd tramor eraill.

Bydd angen i fusnesau sy'n masnachu â'r Undeb Ewropeaidd gael rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd Prydain (EORI) er mwyn gallu gwneud datganiadau tollau. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen rhif EORI yr Undeb Ewropeaidd arnynt hefyd.

Ni fydd darpariaethau'r TCA yn berthnasol i fasnachu nwyddau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon, lle bydd darpariaethau'r Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Ymadael yn berthnasol.

Mae angen XI EORI ar fusnesau sy'n symud nwyddau rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon. Mae proses y tollau ar gyfer symud nwyddau yn wahanol ac mae'r Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr⁶ wedi cael ei sefydlu i wneud datganiadau ar ran busnesau a'u cludwyr.

O ran masnachu rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon, cytunwyd ar fesurau dros dro rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig er mwyn gallu addasu i'r rheolau newydd.

⁶ <https://www.tradersupportservice.co.uk/tss>

Telerau ac Amodau Cytundebau

Rhaid i fusnesau gytuno pa barti sy'n gyfrifol am bob cam yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys clirio tollau. Gelwir y rhain yn Incoterms®.

Mae rheolau Incoterms yn cael eu creu a'u cyhoeddi gan y Siambr Fasnach Ryngwladol (ICC) ac maent yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Yr adolygiad diweddaraf yw Incoterms 2020 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2020.

Os yw busnesau'n gwerthu nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd ar sail Cyflenwyd â'r Tollau wedi eu Talu (DDP), bydd angen iddynt hefyd gael EORI yr Undeb Ewropeaidd er mwyn gwneud datganiadau mewnfario yn yr Undeb Ewropeaidd, a byddant hefyd yn gyfrifol am dalu tollau a threthi sy'n gymwys.

Ar y llaw arall, bydd busnesau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gwerthu nwyddau i'r Deyrnas Unedig ar sail DDP hefyd angen rhif EORI y Deyrnas Unedig.

Bydd angen i fusnesau sy'n gwerthu nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd ar sail ôl-waith (EXW) gadw cofnodion i ddangos bod y nwyddau wedi gadael y Deyrnas Unedig neu wynebu gorfod rhoi cyfrif am TAW gwerthu.

Os yw busnesau'n mewnfario o'r Undeb Ewropeaidd ar sail EXW, yna byddant yn allforiwr o'r Undeb Ewropeaidd a bydd yn rhaid iddynt gwblhau holl weithdrefnau allforio'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys datganiadau tollau, a bydd arnynt angen EORI yr Undeb Ewropeaidd ar eu cyfer yn ogystal ag un Prydain.

Codau nwyddau

Mae'n bwysig bod nwyddau'n cael eu dosbarthu'n gywir gan fod hyn yn pennu'r tollau a allai fod yn daladwy a'r rheolaethau a allai fod yn berthnasol wrth fewnfario neu allforio nwyddau.

Trwyddedu/Awdurdodi Allforion a Mewnfario

Mae'r rhain yn ystyriaethau newydd pwysig i fusnesau gan fod y rheolaethau bellach yn berthnasol i fasnachu â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen i fusnesau fod yn ymwybodol o'r rhain.

Ceir rheolau yn y Deyrnas Unedig ar amrywiaeth eang o eitemau, gan gynnwys:

- anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid
- planhigion a chynhyrchion planhigion
- cyffuriau a meddyginiaethau
- dyfeisiau meddygol
- cemegion
- sylweddau sy'n teneuo'r osôn a nwyon wedi'u fflworeiddio
- sylweddau ymbelydrol
- diemwntau
- gwaith celf, creiriau a nwyddau sy'n bwysig yn ddiwylliannol
- gwastraff
- nwyddau y gellid eu defnyddio ar gyfer artaith neu'r gosb eithaf
- drylliau, bwledi/cetris a chyfarpar cysylltiedig
- nwyddau, gwasanaethau a thechnoleg filwrol
- eitemau defnydd deuol (y rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer defnydd sifil a milwrol).

Bydd angen i fewnforwyr ac allforwyr hefyd ystyried rheolaethau'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys a fydd angen trwydded ar eu cyflenwyr/cwsmeriaid i allforio/mewnforio'r nwyddau.

Datganiadau Tollau

Caiff y rhain eu gwneud (yn electronig) ar gyfer mewnfurion ac allforion – naill ai gan y masnachwr neu drwy gyfryngwr fel anfonwr nwyddau, Siambr Fasnach neu gyfryngwyr cymeradwy eraill. Mae datganiadau tollau yn cynnwys datganiadau diogelwch perthnasol.

Mae'r broses hon yn gymhleth ac mae angen meddalwedd arbenigol a staff sydd wedi eu hyfforddi. Mae busnesau yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfryngwr priodol.

Cyflwynir datganiadau fesul cam ar gyfer mewnfurion i'r Deyrnas Unedig. Mae angen datganiadau llawn ar gyfer allforion o'r diwrnod cyntaf.

TAW

Newidiodd y rheolau yma ar gyfer allforion yn sylweddol ar 1 Ionawr 2021 gan y bydd y Deyrnas Unedig yn drydedd wlad at ddibenion TAW (ac eithrio nwyddau a gyflenwir i Ogledd Iwerddon ac oddi yno).

Y newid allweddol yw y bydd gwerthu nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei drin fel "allforion" o'r Deyrnas Unedig ac y bydd anfonebau'n cael eu dynodi'n rhai "cyfradd sero" at ddibenion TAW. Fodd bynnag, bydd rheolau arbennig yn berthnasol ar gyfer nwyddau sy'n cael eu symud rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain, a Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd.

Cwsmeriaid yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n gyfrifol am roi cyfrif am TAW mewnfurio yn eu gwlad (oni bai fod y nwyddau'n cael eu gwerthu ar sail Cyflenwyd â'r Tollau wedi eu Talu (DDP), lle byddai'r allforiwr yn gyfrifol am TAW yn yr Undeb Ewropeaidd).

Ar gyfer allforion busnes i ddefnyddwyr (B2C) i'r Undeb Ewropeaidd, mae nifer o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn mynnu bod cyflenwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn mewnfurio cofnodion pan fydd nwyddau'n cyrraedd. Mae'r rhwymedigaeth hon yn golygu bod angen cofrestru ar gyfer TAW mewn gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd a rhoi cyfrif am unrhyw TAW sy'n ddyledus, er mwyn adfer TAW mewnfurio a rhoi cyfrif am TAW leol ar y cyflenwad i'r cwsmer. Dylai'r rhan fwyaf o fusnesau allu adennill y TAW mewnfurio, ond gallai achosi problem o ran llif arian. Dylai cwmnïau yn y Deyrnas Unedig ystyried a oes angen iddynt fod wedi eu cofrestru ar gyfer TAW yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd ymaent yn masnachu â nhw.

O ganlyniad i'r darpariaethau cymorth cilyddol yn y Protocol Adfer TAW a Dyled yn y TCA, ni ddylai Aelod-wladwriaethau'r UE ei gwneud yn ofynnol i fusnesau'r DU benodi Cynrychiolydd Cyllid yn yr Aelod-wladwriaeth honno er mwyn gwneud cyflenwadau yno. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw pob Aelod-wladwriaeth wedi gweithredu'r ddarpariaeth hon yn llawn eto, felly dylech wirio a all fod angen cynrychiolydd cyllid yn y tymor byr.

Er bod gan holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd system TAW, mae'n bwysig cofio bod y gofynion a'r rhwymedigaethau yn amrywio rhwng pob un. Dylai cwmnïau yn y Deyrnas Unedig osgoi'r dybiaeth bod yr hyn sy'n berthnasol mewn un wlad yn yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i bob un ohonynt.

Rhyddhad prosesu o'r tu allan

Mae rhyddhad prosesu o'r tu allan yn caniatáu oedi neu ostyngiad mewn tollau neu TAW mewnfurio ar nwyddau sy'n mynd i ranbarth (megis y DU) at ddibenion prosesu neu atgyweirio yn unig, cyn cael eu hallforio'n ôl i'w tarddle (megis yr UE).

Yn ogystal, mae absenoldeb cymal dim tynnu'n ôl yn y TCA yn golygu bod cyfle yn awr i fusnesau'r Deyrnas Unedig sy'n gwerthu nwyddau y tu allan i Brydain ddefnyddio prosesau tollau i ohirio/hawlio'n ôl gostau Tollau a TAW ar ddeunyddiau sydd wedi eu mewnfario.

Rheolau Tarddiad

O ganlyniad i'r rheolau a ddisgrifir uchod, bydd angen i fusnesau yn awr brofi eu bod yn glynu wrth y rheolau hyn. Gall busnesau sy'n gweithredu yn y sector bwyd-amaeth neu'r rhai sy'n delio ag allforio anifeiliaid byw neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wynebu mesurau glanweithiol a ffytoiecthydol (SPS) ychwanegol. Mae manylion am y rhain ar gael yn yr adran SPS.

Mae prawf yn awr yn golygu'r canlynol:

Cyfrifoldeb busnesau yw sicrhau eu bod yn darparu declarasiwn tarddiad yn gywir (aelwir fel arall yn ddatganiadau tarddiad⁷) i hawlio'r tariffiau sero ffafriol ar gyfer nwyddau. Mae angen y rhain i brofi bod nwyddau'n tarddu ac felly i benderfynu a fydd cadwyni cyflenwi a phrosesu a ddefnyddir i gynhyrchu nwyddau yn bodloni'r rheolau tarddiad perthnasol ar gyfer cynhyrchion penodol. Gall allforwyr hunanardystio tarddiad nwyddau drwy eu datganiad tarddiad. Does dim angen i fusnesau fel allforiwr gael statws "allforiwr cymeradwy".

Rhaid i fusnes mewnfario gadw'r datganiad tarddiad am o leiaf dair blynedd, neu'r cofnodion a ddefnyddir i wneud hawliad gwybodaeth mewnfariwr. Rhaid i'r allforiwr gadw copi o'i ddatganiad tarddiad, a dogfennau ategol sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau tarddiad, am o leiaf 4 blynedd.

Fel arall, gellir defnyddio 'gwybodaeth mewnfariwr' i ddangos bod cynnyrch yn bodloni'r rheolau tarddiad perthnasol. Gwybodaeth mewnfariwr yw pan fydd mewnfariwr yn defnyddio ei wybodaeth ei hun am statws gwreiddiol cynnyrch a fewnforir er mwyn hawlio cyfraddau tariff ffafriol. I gymhwyso o dan y TCA fel 'gwybodaeth mewnfariwr' rhaid i'r honiad gan y mewnfariwr fod yn seiliedig ar wybodaeth sy'n dangos bod y cynnyrch yn darddiadol – yn gyffredinol bydd ar ffurf dogfennau neu gofnodion ategol a ddarperir gan allforiwr neu weithgynhyrchwr y cynnyrch, sydd ym meddiant y mewnfariwr. Gan fod mewnfariwr yn gwneud hawliad gan ddefnyddio ei wybodaeth ei hun, ni ddefnyddir datganiad tarddiad gan yr allforiwr.

Fel y nodir uchod, gall rheolau tarddiad cynnyrch amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y cynnyrch dan sylw. Mae gweithgynhyrchwyr cynnyrch sy'n defnyddio cymysgedd o gynhyrchion cychwynol a chynhyrchion nad ydynt yn tarddu yn debygol o orfod profi un neu gyfuniad o'r canlynol:

- bod y deunyddiau nad ydynt yn tarddu wedi bod drwy broses gynhyrchu neu weithgynhyrchu benodol;
- nad yw'r deunyddiau nad ydynt yn tarddu gyda'i gilydd yn fwy na chanran benodol o werth neu bwysau'r cynnyrch terfynol;
- bod y cynnyrch terfynol yn perthyn o dan bennawd tariff gwahanol (cod) i'r cynnyrch nad yw'n tarddu.

Mae cymorth a chanllawiau ar hyn ar gael ar wefan Gov.UK a thrwy CThEM:

<https://www.gov.uk/government/publications/rules-of-origin-for-goods-moving-between-the-uk-and-eu>

⁷ Fel rhan o'r Farchnad Sengl, nid oedd angen Datganiadau Tarddiad o'r blaen ar gyfer symud nwyddau o'r Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd.

Pennod 3: Rhwystrau Technegol Masnachu (Rheoliadau, Safonau ac Asesiadau Cydymffurfio)

Y Rheolau

O dan y TCA, mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi ymrwymo i ddefnyddio arferion rheoleiddio da wrth ddatblygu rheoliadau sy'n ymwneud â nwyddau, fel cynnal asesiadau effaith o reoliadau arfaethedig, a defnyddio safonau rhyngwladol (fel y rhai a gynhrychir gan ISO, IEC, ITU a CODEX) fel sail ar gyfer y rheoliadau hynny.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal gwahaniaeth mewn rheoliadau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r risg yn wir y gallai busnesau orfod bodloni dwy set wahanol o ofynion rheoleiddio pan fydd nwyddau'n cael eu masnachu rhwng y ddau yn y dyfodol.

Asesiadau cydymffurfio

Defnyddir gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth i roi sicrwydd bod y cynnyrch a gynhrychir ac a gyflenwir yn cwrdd â'r disgwyliadau perthnasol a bennir ac (yn gyfreithiol) sy'n ofynnol. Mae gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn cynnwys gweithgareddau fel profi, archwilio ac ardystio.

Gall rhai cynnyrch (fel dyfeisiau electronig, teganau, peiriannau, cynhyrchion adeiladu, dyfeisiau meddygol, a chyfarpar diogelu personol) gael eu hunanardystio drwy'r broses hon, ond rhaid i eraill gael un o nifer o weithdrefnau asesu cydymffurfiaeth penodol sy'n cynnwys trydydd parti. Mae hyn yn cynnwys Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth (CAB), a elwir hefyd yn Gyrff a Hysbysir neu Gyrff Cymeradwy yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, neu gymeradwyaeth gan awdurdodau perthnasol megis yr MHRA (yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd) neu VCA (yr Asiantaeth Ardystio Cerbydau), cyn y gall y gwneuthurwr ddatgan cydymffurfiaeth.

Mae'r cytundeb yn rhoi ymrwymadau ar waith y bydd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn eu cynnal o ran gofynion a defnyddio gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth, fel y bydd gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn cael eu defnyddio'n gymesur ar sail y risgiau dan sylw. Fodd bynnag, dim ond un achos penodol o gyd-gydnabod sy'n ymwneud â thystysgrifau Arferion Gweithgynhyrchu Da ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol (mae hyn yn golygu na fydd angen i safleoedd sy'n gwneud meddyginiaethau dynol a milfeddygol o'r fath yn y Deyrnas Unedig gael eu harchwilio gan arolygwyr yr Undeb Ewropeaidd ac fel arall).

Ar wahân i'r enghraifft hon, nid yw'r TCA yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o asesiadau cydymffurfio. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen trefniadau asesu cydymffurfiaeth, na all CAB y Deyrnas Unedig ardystio bod cynnyrch y Deyrnas Unedig yn bodloni safonau'r Undeb Ewropeaidd, ac ni all CAB yr Undeb Ewropeaidd ardystio bod cynnyrch yr Undeb Ewropeaidd yn bodloni safonau'r Deyrnas Unedig.

Pan fo gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn gofyn am gymeradwyaeth gan gorff asesu cydymffurfiaeth trydydd parti, bydd angen i fusnes gael ardystiad yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd os bwriedir gwerthu'r cynhyrchion yn y naill a'r llall. Bydd nod Asesiad Cydymffurfio'r Deyrnas Unedig (UKCA) yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod cynnyrch yn y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio, a bydd y nod CE⁸ yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddangos cydymffurfiaeth cynhyrchion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Nod UKCA yw'r nod ar gyfer nodi cynnyrch newydd yn y Deyrnas Unedig a fydd yn ofynnol ar gyfer rhai cynhyrchion penodol sy'n cael eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain (Cymru,

⁸ Mae'r Nod CE wedi ei stampio neu wedi ei osod ar gynnyrch perthnasol i ddangos yr asesydd eu bod yn bodloni safonau rheoleiddio'r Undeb Ewropeaidd.

Lloegr a'r Alban). Mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o gynhyrchion a oedd yn gofyn am nod CE yn flaenorol. Er mwyn helpu busnesau i addasu i'r newid hwn, mae'r Deyrnas Unedig yn caniatáu i'r rhan fwyaf o nwyddau sydd â nod CE barhau i gael eu rhoi ar farchnad Prydain tan 1 Ionawr 2022. Mae hyn yn cynnwys nwyddau sydd wedi cael eu hasesu gan CAB yr Undeb Ewropeaidd.

Ni fydd UKCA yn cael ei gydnabod ym marchnad yr Undeb Ewropeaidd. Bydd angen nod CE o hyd ar gynhyrchion lle mae gofyn am nod CE i'w gwerthu yn yr Undeb Ewropeaidd.

Nodi a labelu

Mae'r cytundeb yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i fusnesau ynghylch gofynion nodi a labelu, yn enwedig o ran caniatáu defnyddio labeli a nodau ychwanegol, a chaniatáu cywiro unrhyw wall yn y wlad sy'n mewnfario:

- **Nodi:** bydd busnesau'n cael defnyddio'r UKCA a'r nod CE gyda'i gilydd ar yr un cynnyrch (gan ddileu'r angen am linellau cynhyrchu ar wahân o bosibl)
- **Labelu:** bydd busnesau'n gallu cywiro gwallau labelu mewn warysau tollau yn hytrach na mynnu bod cynnyrch yn cael ei ddychwelyd i'w gywiro yn y wlad sy'n mewnfario.

Atodiadau am sectorau penodol/Baich rheoleiddio

Mae'r cytundeb yn cynnwys atodiadau penodol ar sectorau/cynhyrchion penodol sy'n darparu ymrwymadau ychwanegol gyda golwg ar leihau'r baich rheoleiddio.

Cerbydau Modur

Ar gyfer cerbydau modur a chydrannau, ar wahân i'r ymrwymiad gan y ddwy ochr i ddefnyddio'r un safonau rhyngwladol, mae'r naill a'r llall yn cydnabod cymeradwyaeth yn arddull y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn golygu y bydd systemau, cydrannau a rhannau a weithgynhyrchwyd yn unol â rheoliadau penodol y Cenhedloedd Unedig yn cael eu derbyn yn y ddwy farchnad.

Bydd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i dderbyn cymeradwyaethau o fath y Cenhedloedd Unedig a roddir gan awdurdodau yn y naill Barti neu'r llall yn unol â safonau a ddatblygwyd yn Fforwm y Byd ar gyfer Cysoni Rheoliadau Cerbydau o fewn fframwaith Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE). Mae hyn yn dileu'r angen i'r nwyddau hyn gael dwy set o asesiadau cymeradwyo/cydymffurfio.

Fodd bynnag, ni fydd cymeradwyaeth math nad yw'n dod o dan reoliadau'r Cenhedloedd Unedig – er enghraifft, cymeradwyo cerbyd cyfan – yn cael ei derbyn ar gyfer cofrestru cerbydau naill ai yn yr Undeb Ewropeaidd neu yn y Deyrnas Unedig, oni bai fod cymeradwyaeth perthnasol wedi ei sicrhau. Ar gyfer cerbydau sydd am gofrestru ym Mhrydain, bydd angen cymeradwyaeth math dros dro ar gyfer Prydain. Ar gyfer cerbydau sydd am gofrestru yn yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd (ECWVTA).

Ar ben hynny, ni fydd y posibilrwydd o gyflwyno cymeradwyaethau math y Deyrnas Unedig nad ydynt yn dod o dan reoliadau'r Cenhedloedd Unedig yn cael eu derbyn yn awtomatig ar gyfer cofrestru cerbydau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Dylai busnesau gyfeirio at:<https://www.gov.uk/transition.cy><https://www.gov.uk/export-goods><https://www.vehicle-certification-agency.gov.uk/>**Cynnyrch meddyginiaethol**

Ar gyfer cynnyrch meddyginiaethol, ceir ymrwymiad i ddefnyddio safonau rhyngwladol yn y rheoliadau meddygol perthnasol a gyflwynwyd gan y ddau barti.

Mae'n werth nodi cydnabyddiaeth y ddwy ochr i archwiliadau Arferion Gweithgynhyrchu Da (GMP) gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, sy'n golygu bod y ddau barti wedi cytuno i gydnabod tystysgrifau archwilio GMP ei gilydd. Bydd hyn yn dileu'r angen am ddau arolygiad GMP ar wahân – un gan awdurdodau'r Deyrnas Unedig ac un gan awdurdodau'r Undeb Ewropeaidd – ar safleoedd sy'n cynhyrchu cynnyrch meddyginiaethol (er y gall un ochr ddewis peidio â chydabod archwiliad GMP mewn amgylchiadau penodol).

Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb yn caniatáu cydnabyddiaeth gilyddol o ran profi swp a rhyddhau QP (unigolyn cymwys). Mae hyn yn golygu y bydd angen i fusnesau sicrhau eu bod yn gallu bodloni profion swp a gweithdrefn QP ar wahân y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn allforio nwyddau sydd angen gweithdrefnau o'r fath, i'r marchnadoedd perthnasol.

Dylai busnesau gyfeirio at:<https://www.gov.uk/transition.cy><https://www.gov.uk/export-goods><https://www.gov.uk/government/collections/new-guidance-and-information-for-industry-from-the-mhra>**Cemegion**

Ar gyfer cemegion, mae hawl y ddau Barti i reoleiddio ar asesu peryglon a risgiau o gemegion wedi cael ei chadw. Ceir ymrwymiad gan y naill barti a'r llall i weithredu System Gytunedig Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig, a ddylai helpu i leihau'r angen i fodloni gofynion dosbarthu a labelu gwahanol ar gyfer cemegion gan fusnesau.

Fodd bynnag, nid oes cytundeb ynghylch rhannu/mynediad at ddata, ar wahân i hwyluso cyfnewid gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol. Ni fydd rheoleiddwyr Prydain yn gallu cael mynediad at holl ddata REACH (Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau) yr Undeb Ewropeaidd sy'n cael eu dal gan yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i fusnesau (p'un a ydynt wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd) sy'n dymuno gwerthu cynnyrch ym marchnadoedd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd gofrestru a chydymffurfio â rheoliadau REACH ar wahân y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ac mae gofynion data cofrestru REACH y Deyrnas Unedig yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser.

Ni fydd angen i fusnesau yng Ngogledd Iwerddon gofrestru gyda REACH y Deyrnas Unedig oni bai eu bod nhw'n dymuno gwerthu cynnyrch i farchnad Prydain.

Dylai busnesau gyfeirio at:

<https://www.gov.uk/guidance/how-to-comply-with-reach-chemical-regulations>

<https://www.hse.gov.uk/reach/index.htm>

Organig

O ran cynnyrch organig, mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno ar drefniadau cyfwerthedd ar gyfer y nwyddau hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y naill barti a'r llall yn derbyn bod rheoliadau'r llall ar gyfer cynnyrch organig penodol yn cyfateb, er y gallai gofynion a rheoliadau gwahanol fod wedi eu rhoi ar waith gan y naill barti neu'r llall. Gan hynny, bydd cynhyrchion a ardystiwyd yn organig mewn un farchnad yn cael eu cydnabod fel rhai organig yn y llall. Bydd y trefniant hwn yn sicrhau na fydd yn rhaid i'r rhai sy'n masnachu cynnyrch organig ddangos eu bod yn cydymffurfio â dwy set o reoliadau.

Fodd bynnag, bydd y trefniant hwn yn cael ei ailasesu mewn ymateb i asesiad o reoliad newydd yr Undeb Ewropeaidd ar stoc organig a fydd yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Dylai busnesau gyfeirio at:

<https://www.gov.uk/guidance/importing-and-exporting-organic-food>

Gwin

Mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer trefniadau ardystio mewnforio syml er mwyn helpu i leihau baich a chost ychwanegol masnachu'r nwyddau hyn i'r eithaf sy'n angenrheidiol.

Bydd angen i fusnesau sy'n allforio gwin i'r Undeb Ewropeaidd fod â dogfennaeth VI-1 yr Undeb Ewropeaidd. Mae manylion ynghylch sut i wneud cais am VI-1 yr Undeb Ewropeaidd ar gael yma: <https://www.gov.uk/guidance/importing-and-exporting-wine>.

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Asesiadau cydymffurfio

Lle bo gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn gofyn am gymeradwyaeth gan gorff asesu cydymffurfiaeth trydydd parti, bydd angen i fusnes gael ardystiad yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae enghreifftiau o ofynion penodol i sector wedi eu nodi uchod.

Bydd nod Asesiad Cydymffurfio'r Deyrnas Unedig (UKCA) yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod cynnyrch yn y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio, a bydd y nod CE yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddangos cydymffurfiaeth cynhyrchion yn yr Undeb Ewropeaidd (ond, fel y nodir uchod, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi trefniadau cyfnod segur ar waith i barhau i ganiatáu i nod CE gael ei ddefnyddio fel arwydd o gydymffurfio â chynhyrchion yn y Deyrnas Unedig tan 31 Rhagfyr 2021).

Fodd bynnag, mae'r cytundeb yn caniatáu i fusnesau ddefnyddio datganiadau cydymffurfio cyflenwyr fel ffordd o hunanardystio bod eu nwyddau'n bodloni safonau perthnasol y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r arfer hwn wedi ei gadw ar gyfer cynnyrch risg isel ac mewn meysydd lle mae'r arfer hwn eisoes yn cael ei ganiatáu – hynny yw, lle'r oedd gweithgynhyrchwyr yn gallu hunan-ddatgan ar gyfer y nod CE, yna byddant yn gallu parhau i hunan-ddatgan ar gyfer y nod CE (er mwyn cael mynediad at farchnad yr Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon) a nod UKCA (er mwyn cael mynediad at farchnad Prydain)⁹.

Pennod 4: Mesurau Iechydol a Ffytioiechydol (SPS)

Y Rheolau

Mae mesurau iechydol a ffytioiechydol yn fesurau sy'n cael eu gwneud i ddiogelu pobl, anifeiliaid a phlanhigion rhag clefydau, plâu neu halogion. Mae'r prif ystyriaethau ar gyfer busnesau wedi eu nodi isod:

Cyfwertedd

Gan nad yw'r Deyrnas Unedig ym Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd mwyach, bydd gwiriadau mewnforio newydd yn cael eu cynnal ar blanhigion a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid (POAO) sy'n cael eu hallforio i'r Undeb Ewropeaidd.

Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) a Lles Anifeiliaid

Mae'r cytundeb yn cynnwys ymrwymadau cryf i ymwrthedd gwrthficrobaidd a lles anifeiliaid. Mae AMR yn cyfeirio at gyflwr pan fydd micro-organebau yn datblygu ymwrthedd i sylweddau gwrthficrobaidd (e.e. gwrthfotigau) ar ôl bod mewn amgylchedd lle mae'r sylweddau hyn yn bresennol. Mae cyflymder datblygiad AMR yn cynyddu, yn rhannol oherwydd defnydd amhriodol a gormodol o gyffuriau gwrthficrobaidd, ac mae hyn yn peri risgiau i iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae mynd i'r afael ag AMR yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer SPS.

Cynhyrchion amddiffyn planhigion (plaladdwyr ac ati)

Dylai ceisiadau am gymeradwyaeth sylweddau gweithredol newydd, awdurdodiadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion a Lefelau Gweddillion Uchaf ym Mhrydain barhau i gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn yr un fformat. Rhaid i sylwedd gweithredol newydd gael ei gymeradwyo ym Mhrydain cyn y gellir ei gynnwys mewn unrhyw PPP a awdurdodwyd i'w ddefnyddio ym Mhrydain¹⁰.

Mae'r TCA yn cynnwys mesurau ar gyfer hwyluso tollau a masnach, sy'n ceisio lleihau cymhlethdod a symleiddio'r broses tollau, gan ganiatáu i nwyddau groesi ffiniau'n haws. Dylai'r mesurau hyn ganiatáu i Weithredwyr Economaidd Awdurdodedig a gydnabyddir gan y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd wynebu llai o wiriadau wrth symud nwyddau rhwng y partion.

⁹ Mae rhestr o'r cynhyrchion hyn ar gael yn <https://www.gov.uk/guidance/using-the-ukca-marking#self-declaration>

¹⁰ <https://www.hse.gov.uk/pesticides/pesticides-registration/general/introduction.htm>

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Mewnforion ac Allforion Anifeiliaid Byw

- Bydd angen y Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC) berthnasol ar fusnesau sy'n allforio anifeiliaid byw a dylent geisio sicrhau eu bod wedi eu cofrestru fel 'Sefydliad Cymeradwy'. Mae 1,900 o EHC enghreifftiol ar gyfer gwahanol gynnyrch a chyrchfannau, ac mae'r rhain ar gael ar wefan Gov.UK¹¹.
- Bydd angen i gymdeithas fridio sy'n dymuno masnachu anifeiliaid brid pur neu gynhyrchion cenhedlol gyda sefydliadau yn yr Undeb Ewropeaidd ar yr un telerau ag yr oedd ganddynt yn flaenorol, gael ei rhestru fel 'corff bridio trydedd wlad' gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi Rhestrriad Trydedd Wlad i'r rhan fwyaf o lyfrau bridfa Cymru. Fodd bynnag, nid yw pob un sy'n dymuno masnachu â'r Undeb Ewropeaidd yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rhestr Trydedd Wlad ar hyn o bryd¹².
- Ar wahân i'r Rhestr o Drydydd Gwledydd, bydd angen gwaith papur ychwanegol a gwiriadau milfeddygol ar fusnesau sy'n symud ceffylau ar draws ffiniau. Yn ogystal â hyn, rhaid iddynt sicrhau bod gan bob ceffyl ficrosglodyn.

Mewnforion ac allforion bwyd

- Dylai pob busnes geisio sicrhau eu bod wedi eu cofrestru fel 'Sefydliadau Cymeradwy' pan fyddant yn allforio nwyddau bwyd sy'n cynnwys 'Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid' (POAO)¹³.
- Bydd busnesau sy'n mewnforio POAO hefyd yn gweld bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar nwyddau o'r fath yn y Deyrnas Unedig, er y bydd gwiriadau ar ffiniau'r Deyrnas Unedig yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ôl risg, gan gynnal gwiriadau yn llai aml ar nwyddau sydd â risg is. I gael esboniad manylach o'r broses o gyflwyno mesurau rheoli ffiniau yn y Deyrnas Unedig yn raddol, gweler y ddogfen Model Gweithredu Ffiniau'r Deyrnas Unedig¹⁴.
- Bydd yr Undeb Ewropeaidd yn cynnal gwiriadau ar fusnesau sy'n allforio POAO a bydd hyn yn ychwanegu amser ar y ffin.
- Os bydd busnesau'n mewnforio nwyddau SPS, bydd y rhain hefyd yn cael eu harchwilio yn y Deyrnas Unedig yn awr a bydd archwiliadau'n cael eu rhoi ar waith fesul cam ar ffin y Deyrnas Unedig yn ôl risg, gyda llai o archwiliadau ar gyfer nwyddau risg is.
- Bydd angen yr EHC perthnasol ar bob POAO ar gyfer mewnforio neu allforio, a rhaid iddo gael ei lofnodi gan Archwiliwr neu Filfeddyg Swyddogol¹⁵.
- Gan fod y Deyrnas Unedig bellach yn cael ei thrin fel 'trydedd wlad' gan yr Undeb Ewropeaidd, mae nifer o allforion y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i waharddiadau a chyfyngiadau. Mae hyn yn golygu na fydd rhai cynhyrchion, fel cigoedd amrwd wedi eu hoeri, yn gymwys mwyach i'w hallforio i'r Undeb Ewropeaidd. Rhaid i fusnesau yn y Deyrnas Unedig asesu a fydd eu cynnyrch yn ddarostyngedig i waharddiadau a chyfyngiadau a chynllunio yn unol â hynny.

11 <https://www.gov.uk/export-health-certificates>

12 Os oes angen help ar fusnesau i restru: <https://www.gov.uk/guidance/export-horses-and-ponies-special-rules>

13 <https://www.gov.uk/food-premises-approval-wales>

14 <https://www.gov.uk/government/publications/the-border-operating-model>

15 Mae manylion ar gael ar wefan Gov.UK: <https://www.gov.uk/export-health-certificates>

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

<https://www.gov.uk/government/collections/guidance-on-importing-and-exporting-live-animals-or-animal-products>

Masnach planhigion ac iechyd planhigion

Dylai ceisiadau am gymeradwyaeth sylweddau gweithredol newydd, awdurdodiadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion a Lefelau Gweddillion Uchaf ym Mhrydain barhau i gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn yr un fformat. Rhaid i sylweddau gweithredol newydd gael ei gymeradwyo ym Mhrydain cyn y gellir ei gynnwys mewn unrhyw PPP a awdurdodwyd i'w ddefnyddio ym Mhrydain¹⁶.

Masnachu â Gogledd Iwerddon

Bydd archfarchnadoedd a chyflenwyr dibynadwy, sydd wedi cael eu nodi ac y cytunwyd ar y rhestr gyda'r Undeb Ewropeaidd, yn elwa ar 'gyfnod o ras' tan 1 Ebrill 2021 pan na fydd yn rhaid iddynt ddarparu gwaith papur SPS (er enghraifft, EHC) wrth symud nwyddau bwyd-amaeth rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn amodol ar ofynion penodol ar gyfer y masnachwyr hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd y Deyrnas Unedig yn newid ei rheolau SPS perthnasol yn dilyn diwedd y Cyfnod Pontio. Bydd hyn yn golygu y gallai nwyddau sy'n cael eu gwahardd o dan adran gwaharddiadau a chyfyngiadau'r TCA barhau i symud rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon am dri mis.

Mae trefniadau ar wahân ar gyfer cynhyrchion cig sy'n amodol ar gyfnod gras o chwe mis tan 1 Gorffennaf 2021. Unwaith eto, dim ond i archfarchnadoedd mae'r trefniadau hyn yn berthnasol.

Ar ôl diwedd y cyfnod gras ar ôl ardystio, bydd angen ardystiad swyddogol ar nwyddau bwyd-amaeth yn benodol (er enghraifft, EHC). Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag archfarchnadoedd, manwerthwyr a'u chyflenwyr i symud i systemau digidol newydd o'r dechrau i'r diwedd sy'n galluogi symud nwyddau yn unol â'r Protocol yn y ffordd fwyaf syml bosibl.

Ar ôl diwedd y cyfnod gras ar gynhyrchion cig, ni chaniateir i rai mathau o gigoedd amrwd wedi eu prosesu wedi eu hoeri (e.e. selsig) symud i Ogledd Iwerddon yn ogystal â'r Undeb Ewropeaidd, er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn glir ei bod yn bwriadu mynd ar drywydd ateb parhaol yma, gan gydnabod bod Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd gydweithredu ar osgoi rhwystrau SPS diangen o ran masnachu mewn nwyddau bwyd-amaeth.

Nid yw'r cyfnodau gras mewn perthynas â chynnyrch sydd wedi eu gwahardd neu wedi eu cyfyngu ac EHC yn berthnasol i nwyddau sy'n teithio i Ogledd Iwerddon drwy Gaergybi a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau dros dro ar gyfer symud nwyddau bwyd-amaeth rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon ar gael ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-northern-ireland-protocol>

¹⁶ <https://www.hse.gov.uk/pesticides/pesticides-registration/general/introduction.htm>

Masnach mewn Gwasanaethau a Buddsoddi

Nid yw'r Deyrnas Unedig bellach yn rhan o Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ac mae hyn yn golygu y bydd cyflenwyr gwasanaethau'r Deyrnas Unedig yn colli eu hawl awtomatig i gynnig gwasanaethau ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Caniateir mynediad o hyd, ond bydd gan y cyflenwyr lai o hawliau nag chystadleuwyr o blith Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n rhaid i fusnesau sy'n allforio gwasanaethau i'r Undeb Ewropeaidd fodloni rheolau ar gyfer trydedd wlad a wneir gan bob Aelod-wladwriaeth – sy'n golygu y gellid bod angen llywio drwy hyd at 27 o wahanol setiau o reoliadau.

Yn ogystal, mae nifer o gytundebau ar wahân rhwng y Deyrnas Unedig ac Ardal Economaidd Ewrop/gwladwriaethau Cytundeb Masnach Rydd Ewrop (EFTA) (Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) a rhwng y Deyrnas Unedig a'r Swistir sy'n ymwneud â masnachu nwyddau, Hawliau Dinasyddion a Physgodfeydd ac ar gyfer pobl sy'n croesi ffiniau busnes tymor byr, aelwir yn symudedd.

Mae'r TCA yn ymdrin â masnachu mewn Gwasanaethau yn Rhan 2, Teitlau II, III a V ac yn Rhan 4, Teitl II. Mae'r rhain yn cynnwys:

Rhan 2 (Masnach, Trafnidiaeth, Pysgodfeydd a threfniadau eraill)

Teitl II – Gwasanaethau a Buddsoddi

- Pennod 1 – Darpariaethau Cyffredinol
- Pennod 2 – Rhyddhau Buddsoddiadau
- Pennod 3 – Masnach Drawsffiniol mewn Gwasanaethau
- Pennod 4 – Mynediad Dros Dro ac Arhosiad Bodau Dynol at Ddibenion Busnes
- Pennod 5 – Fframwaith rheoleiddio
 - Adran 1: Rheoliadau domestig
 - Adran 2: Darpariaethau'r Cais Cyffredinol (gan gynnwys cymwysterau proffesiynol)
 - Adran 3: Gwasanaethau Cyflawni
 - Adran 4: Gwasanaethau Telathrebu
 - Adran 5: Gwasanaethau Ariannol
 - Adran 6: Gwasanaethau Trafnidiaeth Forol Ryngwladol
 - Adran 7: Gwasanaethau Cyfreithiol

Teitl III – Masnach Ddigidol

Teitl V – Eiddo Deallusol

Rhan 4 (Cydweithredu Thematig)

Teitl II – Seiberddiogelwch

Beth na chynhwyswyd yn y Cytundeb?

Mae'n bwysig dechrau gyda'r hyn nad yw yn y cytundeb o'i gymharu â sut roedd y trefniadau'n gweithio fel rhan o Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd. Gall hyn arwain at oblygiadau pwysig i rai sectorau yng Nghymru fel y nodir isod.

Hyd yn oed pan fo darpariaethau cadarnhaol wedi eu cynnwys yn y TCA, mae'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i eithriadau sylweddol a amlinellir yn erthyglau'r TCA ac yn yr Atodiadau.

Clyweled

Mae'r sector hwn wedi ei eithrio o'r TCA. Mae hyn yn golygu bod masnachu mewn gwasanaethau clyweledol yn cael ei reoleiddio gan Aelod-wladwriaethau unigol, yn amodol ar ddarpariaethau (cyfyngedig iawn) Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

Digonolrwydd data

Nid yw sicrhau bod data'n cael ei gyfnewid yn rhydd rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn rhan o'r TCA. Yn hytrach, bydd yn dibynnu ar asesiad unochrog gan yr Undeb Ewropeaidd o ddigonolrwydd trefn diogelu data'r Deyrnas Unedig o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Gyfarwydddeb Gorfodi'r Gyfraith, a bod deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn ystyried yr AEE yn ddigonol at ddibenion y Deyrnas Unedig ar sail bontio. Mae'r asesiad hwn bellach wedi ei gwblhau ac mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo digonolrwydd data am gyfnod o bedair blynedd. Bryd hynny, bydd yr Undeb Ewropeaidd yn adolygu'r penderfyniad. Mae hyn yn golygu y gall data barhau i lifo'n rhydd ar unwaith o 1 Ionawr 2021 ymlaen ac y bydd busnesau a chyrff cyhoeddus ar draws pob sector yn gallu parhau i gael data gan yr Undeb Ewropeaidd (ac Ardal Economaidd Ewrop), gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf a sut gall cwmnïau sefydlu mecanweithiau trosglwyddo gwahanol, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth¹⁷.

Cyferthedd ariannol

Nid yw'r Cytundeb yn cynnwys "pasbortio" ar gyfer gwasanaethau ariannol a oedd ar gael yn flaenorol o dan delerau Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd. Mae pasbortio yn caniatáu i gwmnïau sydd wedi eu hawdurdodi mewn gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd gynnal busnes o fewn gwladwriaethau eraill yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n seiliedig ar eu hawdurdod 'cartref' fel Aelod-wladwriaeth: mewn geiriau eraill, mae gan fusnes sydd wedi ei drwyddedu i redeg y gwasanaeth ariannol perthnasol o fewn un Aelod-wladwriaeth hawl awtomatig i gynnal y gwasanaeth hwnnw ar draws yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn ei chyfanrwydd. Nid yw pasbortio yn bosibl mwyach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Yn hytrach, bydd penderfyniadau ynghylch mynediad at farchnadoedd ei gilydd mewn gwasanaethau ariannol yn seiliedig ar y naill ochr a'r llall yn datgan yn unochrog bod systemau rheoleiddio'r ochr arall yn cyfateb ('penderfyniad cyferthedd').

Mae cyferthedd ariannol yn rhan o drafodaethau gwahanol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd sy'n dal i gael eu cynnal. Nid yw'r datganiad ar wasanaethau ariannol sydd wedi ei atodi i'r TCA yn ymrwymo'r naill ochr na'r llall i wneud penderfyniadau cyferthedd yn y dyfodol.

¹⁷ <https://ico.org.uk/>

Mae hyn yn golygu nad oes gan y sector ariannol sicrwydd ynghylch trefniadau hirdymor ar gyfer masnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i gwmnïau gwasanaethau ariannol yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddynt bresenoldeb yn yr Undeb Ewropeaidd yn barod. Yn yr achos hwn, bydd ansicrwydd penderfyniadau ynghylch cyfwerthedd ariannol, a all newid ar fyr rybudd, yn effeithio ar fasnach gwasanaethau ariannol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Hyd yma, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi rhoi cyfwerthedd â therfyn amser i'r Deyrnas Unedig ar ddau o'r 40 o wahanol feysydd ariannol, fwy neu lai, lle mae Llundain yn ceisio cael mynediad at y farchnad. Mae'r rhain yn ymwneud â chydabod systemau clirio'r Deyrnas Unedig fel rhai cyfatebol fel y gall cwmnïau'r AEE eu defnyddio ar gyfer trafodion tarddiadau (hyd 30 Mehefin 2022) a chydabod storfeydd diogelwch canolog ar gyfer setlo trafodion diogelwch Iwerddon (hyd fis Mehefin 2021). Nid yw'r Undeb Ewropeaidd wedi rhoi unrhyw arwydd pellach ynghylch pryd bydd yn gwneud mwy o benderfyniadau cyfwerthedd.

Hyd yn oed pe bai cyfwerthedd ariannol yng nghyswllt gwasanaethau ariannol eraill yn cael eu dyfarnu i'r Deyrnas Unedig gan yr Undeb Ewropeaidd, byddai hyn yn dal yn eithrio llawer o weithgareddau bancio ac ariannol craidd – er enghraifft, derbyn adneuo, darparu gwasanaethau buddsoddi i fuddsoddwyr adwerthu (nad ydynt yn broffesiynol) gwasanaethau talu gan mai dim ond gan ddarparwyr sydd wedi eu lleoli a'u rheoleiddio gan Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y gellir eu cyflenwi yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae llai o gyfyngiadau ar fusnesau gwasanaethau ariannol yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n masnachu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Deyrnas Unedig wedi caniatáu cynifer o benderfyniadau cyfwerth ag y gallai, mewn meysydd lle mae'n gwneud synnwyr i'r Deyrnas Unedig wneud hynny ond heb drefniadau cilyddol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r penderfyniadau cyfwerthedd hyn yn cynnig amrywiaeth o fanteision, gan gynnwys cefnogi marchnadoedd agored sy'n cael eu rheoleiddio'n dda, hwyluso'r broses o gyfuno a rheoli risg yn effeithiol, ac ategu mynediad cleientiaid y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd at wasanaethau ariannol a hylifedd yn y farchnad.

Cyn y Cyfnod Pontio, cymerodd awdurdodau'r Deyrnas Unedig gamau helaeth hefyd i liniaru'r risgiau o darfu ar wasanaethau ariannol trawsffiniol. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau y byddai Trefn Caniatâd Dros Dro yn berthnasol o ddiwedd y Cyfnod Pontio sy'n caniatáu i gwmnïau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a oedd wedi bod yn darparu gwasanaethau yn y Deyrnas Unedig drwy 'basbort' gwasanaethau ariannol barhau i weithredu ar ôl y Cyfnod Pontio wrth iddynt wneud cais am awdurdodiad llawn gan y Deyrnas Unedig.

Diogelu buddsoddiadau

Mae teitl II o'r TCA yn cynnwys safonau sy'n diogelu buddsoddiadau a buddsoddwyr y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd ar sail yr hawl i gael mynediad i farchnad, yr hawl i gael yr un driniaeth â buddsoddiadau a buddsoddwyr yr Aelod-wladwriaeth honno a chytundebau i wella darpariaethau yn unol â chytundebau masnach y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Nid yw'r TCA yn cynnwys unrhyw fath o setlo anghydfod rhwng buddsoddwr a'r wladwriaeth sy'n golygu na all buddsoddwyr y Deyrnas Unedig ddefnyddio telerau'r TCA i ddwyn hawliadau yn erbyn yr Undeb Ewropeaidd am golledion canfyddedig oherwydd newidiadau i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn cael eu hystyried yn 'driniaeth deg a chyfartal' neu ddifeddiant boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Pennod 2: Rhyddhau buddsoddiadau

Y Rheolau

Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau mewn perthynas â busnesau neu unigolion o'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig sy'n dymuno sefydlu busnesau yn y diriogaeth arall a'r ffordd y gall buddsoddwyr redeg y busnesau hynny.

Mae'r Cytundeb yn datgan na fydd y Deyrnas Unedig na'r Undeb Ewropeaidd yn mabwysiadu nac yn cynnal mesurau sy'n gosod cyfyngiadau o ran buddsoddiad ar y llall o ran nifer y mentrau a ganiateir, gwerth y trafodion, nifer neu faint yr allbwn, cyfranogiad cyfalaf tramor naill ai yn ôl canran neu gyfanswm gwerth neu nifer y bobl a gyflogir.

Mae hefyd yn nodi na ddylai'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd drin buddsoddwyr ei gilydd yn llai ffafriol na buddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn eu tiriogaeth eu hunain pan fyddant mewn sefyllfaoedd tebyg o ran sefydlu a rhedeg mentrau.

Mae darpariaeth hefyd (Erthygl SERVIN.2.4 Triniaeth y wlad a ffefrir fwyaf) sy'n sicrhau, os bydd cytundeb masnach rydd yn cael ei negodi yn y dyfodol gan y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd gyda telerau mwy ffafriol i fuddsoddwyr na'r TCA, y bydd y telerau mwy ffafriol hynny'n cael eu rhoi i fuddsoddwyr yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn amodol ar eithriadau.

Mae'r cytundeb hefyd yn nodi na fydd unrhyw gyfyngiadau ar benodi unigolion yn swyddogion gweithredol, yn rheolwyr neu'n aelodau o fyrddau cyfarwyddwyr o ran eu cenedligrwydd (os ydynt yn wladolion y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd).

Mae'r cytundeb hefyd yn gwahardd gwahaniaethu rhwng busnesau'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig o ran defnyddio cyflenwyr a dyfarnu a gweithredu trwyddedau a chontractau.

Fodd bynnag, mae nifer fawr o eithriadau i'r darpariaethau hyn mewn perthynas ag Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd a'r AEE sydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau'r TCA ac y dylid hefyd eu hystyried gan ddarpar fuddsoddwyr¹⁸.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i fusnesau?

Mewn egwyddor, dylai buddsoddwyr y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd allu sefydlu a buddsoddi mewn menter, a gwasanaethu fel uwch reolwr/swyddog gweithredol neu eistedd ar fwrdd y cyfarwyddwyr yn yr un modd ag y byddai buddsoddwyr yr Undeb Ewropeaidd yn ei wlad ei hun yn gallu ei wneud. Bydd hyn yn berthnasol hefyd fel arall.

Fodd bynnag, mae angen i fusnesau'r Deyrnas Unedig sy'n buddsoddi yn yr Undeb Ewropeaidd, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy, neu'r Swistir, wirio rheoliadau cenedlaethol y wlad y maent yn rhedeg busnes ynddi er mwyn deall y ffordd orau o weithredu.

Dylai busnesau baratoi ar gyfer y canlynol:

- gofynion ychwanegol ar genedligrwydd neu breswyliaid uwch reolwyr neu gyfarwyddwyr
- terfynau ar faint o ecwiti y gall pobl nad ydynt yn wladolion ei ddal.

¹⁸ I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddolen hon:
<https://www.gov.uk/government/collections/providing-services-to-eea-and-efta-countries-after-eu-exit>

Gellid rhoi'r gorau i gydnabod atebolrwydd cyfyngedig cwmnïau'r Deyrnas Unedig a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd â'u canolfan gweinyddu canolog neu eu prif fan busnes mewn Aelod-wladwriaethau penodol o'r Undeb Ewropeaidd.

Pennod 3: Masnach Drawsffiniol mewn Gwasanaethau

Y Rheolau

Fel y rhan fwyaf o Gytundebau Masnach Rydd sy'n cynnwys gwasanaethau, mae'r TCA yn defnyddio Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS) Sefydliad Masnach y Byd fel y llinell sylfaen. Yn erbyn y llinell sylfaen hon mae wedi lleihau'r rhwystrau i fasnach ymhellach mewn sectorau fel gwasanaethau proffesiynol a busnes, gwasanaethau ariannol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau trafndiaeth. Mae hyn yn cynnwys ymrwymïadau sy'n sicrhau nad yw cyflenwyr gwasanaethau a buddsoddwyr yn wynebu cyfyngiadau fel profion anghenion economaidd, cyfyngiadau ar ffurf gorfforaethol a chapiau ecwiti tramor.

Mae'r TCA yn gwahardd unrhyw ofynion ar gyfer sefydlu menter neu i fod yn breswyl fel amod ar gyfer cyflenwi gwasanaeth ar draws y ffiniau. Mae hyn yn golygu bod cyflenwr gwasanaethau'r Deyrnas Unedig yn gallu masnachu gydag Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd heb sefydlu is-gwmni na phresenoldeb lleol.

Mae'r TCA yn cynnwys ymrwymïadau ar driniaeth anwahaniaethol rhwng cyflenwyr gwasanaethau a buddsoddwyr y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (fel y nodwyd yn yr adran flaenorol). Mae hyn yn golygu y dylai cyflenwr gwasanaethau'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio mewn Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd gael ei drin yn yr un ffordd â chyflenwr gwasanaethau o'r Aelod-wladwriaeth honno. Mae hefyd yn berthnasol fel arall i gyflenwyr gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n darparu gwasanaethau yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r TCA yn sicrhau, os bydd y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi telerau mwy ffafriol i wlad arall yn y dyfodol, y bydd y telerau hynny'n cael eu hymestyn yn awtomatig i'r Deyrnas Unedig/Undeb Ewropeaidd.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i fusnesau?

Mae'n bwysig nodi bod y TCA hefyd yn cynnwys atodlenni sy'n darparu ar gyfer eithriadau i'r telerau a amlinellir uchod yn yr adran Y Rheolau. Mae hyn yn golygu bod rheoliadau Aelod-wladwriaethau'n berthnasol hefyd, felly gallai fod cyfyngiadau eraill sy'n ymwneud â'r Aelod-wladwriaeth benodol. Felly, bydd angen i fusnesau ymchwilio i'r rhain i sicrhau eu bod yn masnachu mewn modd sy'n cydymffurfio.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

<https://www.gov.uk/guidance/providing-services-to-any-country-in-the-eu-iceland-liechtenstein-norway-or-switzerland-after-eu-exit>

Pennod 4: Arhosiad Dros Dro a Mynediad Bodau Dynol at Ddibenion Busnes

Mae Pennod 4 o'r TCA yn darparu ar gyfer arhosiad dros dro a mynediad i unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae pob categori o ymwelydd busnes yn ddarostyngedig i'w set ei hun o ddarpariaethau yn y TCA.

Mae unigolion sy'n bodloni'r diffiniad o ymwelydd busnes tymor byr o bosibl yn gymwys i deithio rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd heb drwydded waith ar gyfer hyd at 90 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o chwe mis. Gan fod rhywfaint o amrywiad yn y rheolau sy'n berthnasol i Aelod-wladwriaethau unigol, bydd angen gwirio'r union amodau mynediad cyn gwneud unrhyw drefniadau teithio.

Y Rheolau

Er mwyn teithio i Aelod-wladwriaeth at ddibenion busnes dros dro, bydd angen i'r unigolyn (neu'r cyflogai/cyflogeion os yw'n berthnasol) ddod o fewn un o'r categorïau canlynol:

- menter
- cyflenwr gwasanaeth contract
- gweithiwr proffesiynol annibynnol
- trosglwyddai mewn corfforaeth
- ymwelydd busnes tymor byr.

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Mae ymweliadau busnes at ddibenion sefydlu yn caniatáu i unigolion sy'n gweithio mewn swydd uwch mewn endid busnes yn y Deyrnas Unedig deithio i Aelod-wladwriaeth ar yr amod eu bod yn gyfrifol am sefydlu menter yn y diriogaeth honno, nad ydynt yn cynnig nac yn darparu gwasanaethau nac yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch economaidd ar wahân i'r hyn sy'n ofynnol at ddibenion sefydlu'r fenter honno ac nad ydynt yn cael tâl gan ffynhonnell sydd wedi'i lleoli yn y diriogaeth honno. Hyd yr arhosiad a ganiateir yw hyd at 90 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o chwe mis, yn amodol ar eithriadau Aelod-wladwriaethau. Mae gan rai Aelod-wladwriaethau (Awstria, y Weriniaeth Tsiec, Cyprus a Slofacia) ofynion mynediad mwy cyfyngedig¹⁹.

Mae trosglwyddeion mewn corfforaeth yn cynnwys trosglwyddo cyflogeion neu bartneriaid mewn endid busnes yn y Deyrnas Unedig dros dro i gangen arall mewn Aelod-wladwriaeth. Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i unigolion fod naill ai'n rheolwr, yn arbenigwr neu'n gyflogai dan hyfforddiant. Rhaid i reolwyr ac arbenigwyr fod wedi gweithio fel cyflogai neu bartner mewn endid busnes yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis cyn dyddiad y trosglwyddiad. Ar gyfer cyflogeion dan hyfforddiant, y cyfnod priodol yw chwe mis. Does dim modd i'r trosglwyddiad fod yn hwy na thair blynedd ar gyfer rheolwyr ac arbenigwyr a hyd at flwyddyn ar gyfer cyflogeion dan hyfforddiant.

Mae cyflenwyr gwasanaethau cytundebol yn berthnasol i gyflogeion endid busnes yn y Deyrnas Unedig sydd wedi llofnodi cytundeb i gyflenwi gwasanaethau i ddefnyddiwr mewn Aelod-wladwriaeth. Rhaid i'r contract gwasanaeth y mae'r cyflogwr yn ymrwymo iddo fod am gyfnod o hyd at 12 mis a mynnu bod unigolion (os ydynt yn gyflogedig) yn gweithio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth dros dro. Ni ddylent dderbyn tâl o ffynhonnell

¹⁹ Amlinellwyd yn Atodiad SERVIN 3 i'r TCA

sydd wedi'i lleoli yn y diriogaeth honno. Mae amodau cymhwysedd sylfaenol eraill y mae'n rhaid iddyn nhw eu bodloni. Er enghraifft, o leiaf dair blynedd o brofiad proffesiynol a chymhwyster perthnasol ar lefel gradd (neu gymhwyster cyfatebol).

Mae gweithwyr proffesiynol annibynnol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig sydd wedi'u sefydlu yn y Deyrnas Unedig (neu'r Undeb Ewropeaidd). Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i unigolion fod wedi cwblhau contract i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddiwr mewn Aelod-wladwriaeth am gyfnod o hyd at 12 mis sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y diriogaeth honno dros dro. Ni ddylai'r unigolion fod eisoes wedi'u sefydlu yn yr Aelod-wladwriaeth honno ac mae amodau cymhwysedd sylfaenol eraill y mae angen eu bodloni. Er enghraifft, chwe blynedd o brofiad proffesiynol a chymhwyster perthnasol ar lefel gradd (neu gymhwyster cyfatebol).

Mae ymweliadau busnes tymor byr dan y TCA wedi'u cyfyngu i weithgareddau penodedig y gellir eu cyflawni mewn hyd at 90 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o chwe mis heb drwydded waith, yn amodol ar eithriadau. Bydd angen gwirio'r union ofynion mynediad ar gyfer y wlad y bwriedir ymweld â hi. Er enghraifft, mewn rhai Aelod-wladwriaethau efallai y bydd angen trwydded a/neu brawf anghenion economaidd ar gyfer rhai gweithgareddau.

Er mwyn elwa ar gyfleoedd i deithio heb fisa ar gyfer ymweliadau busnes tymor byr, bydd yn rhaid i fusnesau ac unigolion wneud y canlynol:

- Cadw cyfrif o bwy sy'n mynd i ba leoliad.
- Gwirio'r amodau mynediad sy'n berthnasol i'r Aelod-wladwriaethau y bwriedir ymweld â nhw.
- Cadw cyfrif o ba mor hir maen nhw'n aros yno (gan nodi y bydd twristiaeth yn cyfrif yn y lwfans 90 diwrnod hyd yn oed os yw'r teithiau dilynol at ddibenion busnes).
- Gwirio bod yr holl weithgareddau y bwriedir ymgymryd â nhw yn gyson â'r gweithgareddau a ganiateir sy'n berthnasol i ymwelwyr busnes tymor byr yn yr Aelod-wladwriaeth honno.
- Cofnodi pa weithgareddau sy'n cael eu gwneud yno.
- Neilltuo amser ac arian i sicrhau'r ceisiadau fisa perthnasol mewn sefyllfaoedd lle nad yw natur a/neu hyd yr ymweliad busnes arfaethedig yn bodloni gofynion ymweliad busnes tymor byr.

Mae'r cosbau posibl am fynd yn groes i'r rheolau yn cynnwys dirwyon, gwrthod mynediad neu wrthod ceisiadau fisa yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nodi bod nifer o Aelod-wladwriaethau wedi gosod cyfyngiadau ychwanegol ar yr amodau mynediad sy'n berthnasol i ymwelwyr busnes²⁰. Bydd yn bwysig i fusnesau ac unigolion wirio'r union reolau sy'n berthnasol i'r Aelod-wladwriaeth dan sylw cyn gwneud unrhyw drefniadau. Dylai unigolion a busnesau edrych ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac unrhyw sefydliad masnach neu broffesiynol perthnasol. Gall cyfyngiadau a gofynion mynediad gwahanol yn y 27 Aelod-wladwriaeth newid ar fyr rybudd, er bod ymrwymiad i roi o leiaf dri mis o rybudd ar gyfer newidiadau i fis.

Mae'r ddolen teithio ar gyfer busnes²¹ ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y camau y dylid eu cymryd wrth gynllunio i deithio i Aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd at ddibenion busnes.

20 Amlinellwyd yn Atodiad SERVIN 3 i'r TCA

21 <https://www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021/business-travel-extra-requirements>

Pennod 5: Fframwaith Rheoleiddio – Adran 2 – Cymwysterau proffesiynol

Y Rheolau

Nid oedd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi dod i gytundeb naill ai ar gydnabyddiaeth gilyddol awtomatig o gymwysterau proffesiynol nac ar lwybr diffiniedig at gydnabyddiaeth o'r fath, fel yr oedd yn bodoli'n ffurfiol o dan Gyfarwydddeb Cydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol (MRPQ) yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r TCA yn cynnwys proses fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y dyfodol – fel yr amlinellir isod.

Tra'u bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, roedd gwladolion y Deyrnas Unedig a dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd â chymwysterau, fel meddygon, niysys, ymarferwyr deintyddol, fferyllwyr, milfeddygon, cyfreithwyr, penseiri neu beirianwyr o'r Deyrnas Unedig yn elwa ar drefn adnabod syml yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cydnabyddiaeth awtomatig ar gyfer rhai proffesiynau. Roedd y drefn hon yn ffordd o gydnabod cymwysterau proffesiynol a oedd yn cefnogi gallu gweithwyr proffesiynol i gyflenwi gwasanaethau ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Gyda'r TCA, mae gwladolion y Deyrnas Unedig yn dal yn gallu cyflenwi gwasanaethau ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, byddant yn rhwym wrth reoliadau domestig Aelod-wladwriaethau unigol a allai ei gwneud yn anoddach cael cydnabyddiaeth am gymwysterau sydd wedi'u hennill yn y Deyrnas Unedig neu, mewn rhai achosion, eu hatal rhag ymarfer eu proffesiwn mewn rhai Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r TCA wedi sefydlu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol drwy'r Cyngor Partneriaeth²², sy'n debyg i Gytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr (CETA) yr Undeb Ewropeaidd – Canada. Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu (ond nid yn mynnu) i reoleiddwyr Aelod-wladwriaethau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd gyflwyno argymhellion ar y cyd i Gyngor Partneriaeth y Deyrnas Unedig-Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ar gyfer trefniadau sy'n benodol i broffesiwn. Gall y trefniadau hyn ddarparu llwybrau i weithwyr proffesiynol y Deyrnas Unedig gael cydnabod eu cymwysterau o dan awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, ac fel arall.

Yn achos penodol gwasanaethau cyfreithiol, mae'r TCA yn caniatáu i gyfreithwyr o bob parti ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol ag arfer cyfraith ryngwladol gyhoeddus a chyfraith y wlad lle maent wedi'u hawdurdodi dan eu teitl "cartref". Mae hyn yn ymwneud â chydabod cymwysterau cyfreithwyr yn ogystal â chyflenwi gwasanaethau ar draws y ffiniau.

Nid yw'r newidiadau i gydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol yn berthnasol i'r gweithwyr proffesiynol hynny o fewn cwmpas y Cytundeb Ymadael. Mae'r Cytundeb Ymadael yn gwarchod penderfyniadau cydnabyddiaeth cadarnhaol a wneir ar y cymwysterau proffesiynol unigol ar gyfer dinasyddion y Deyrnas Unedig (a'u teuluoedd) sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd, neu ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (a'u teuluoedd) sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gweithwyr traws-ffin sefydledig cyn diwedd y cyfnod pontio (yn amodol ar gyfyngiadau). Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddinasyddion y Deyrnas Unedig sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth o'u cymwysterau yn yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 1 Ionawr 2021.

22 Corff ar y cyd rhwng y Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei greu gan y TCA

Mae'r Cytundeb Ymadael a'r Ardal Deithio Gyffredin hefyd yn diogelu hawliau dinasyddion y Deyrnas Unedig i deithio a gweithio yn Iwerddon (y Weriniaeth a Gogledd Iwerddon) ac fel arall.

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Bydd angen i weithwyr proffesiynol y Deyrnas Unedig sydd am weithio yn yr Undeb Ewropeaidd sicrhau bod eu cymwysterau'n cael eu hadnabod gan y rheoleiddiwr priodol ar gyfer eu proffesiwn ym mhob gwlad lle maen nhw'n bwriadu gweithio. Gallai hyn hefyd olygu gorfod pasio arholiadau proffesiynol ychwanegol a/neu orfod dangos profiad gwaith.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi rhagor o arweiniad yma:

<https://www.gov.uk/guidance/providing-services-to-any-country-in-the-eu-iceland-liechtenstein-norway-or-switzerland-after-eu-exit#recognition-of-professional-qualifications>

Pennod 5: Fframwaith Rheoleiddio – Adran 4: Gwasanaethau Telathrebu

Telathrebu, trawsrwydweithio data symudol a niwtraliaeth y rhyngrwyd

Mae darpariaethau'r TCA yn cloi'r lefelau rhyddhau presennol ym marchnadoedd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae darpariaethau safonol ar awdurdodi, mynediad at rwydweithiau telathrebu a'r defnydd ohonynt, rhyng-gysylltu, rheoleiddio teg a thryloyw a dyrannu adnoddau prin. Mae'r Cytundeb yn sicrhau na fydd busnesau o'r naill ochr na'r llall yn gorfod aros am ganiatâd ymlaen llaw cyn dechrau darparu gwasanaethau, sy'n golygu bod gan weithredwyr y Deyrnas Unedig fynediad at farchnadoedd telathrebu'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r TCA yn cynnwys mesurau i annog cydweithredu ar hyrwyddo cyfraddau teg a thryloyw ar gyfer trawsrwydweithio rhyngwladol, ond nid yw'n gwarantu trawsrwydweithio data symudol heb gostau ychwanegol. Mater i weithredwyr rhwydweithiau symudol yw cyfraddau trawsrwydweithio a gallent eu newid yn y dyfodol.

Mae'r TCA hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau ynghylch 'niwtraliaeth y rhyngrwyd', sy'n cyflawni nodau'r Deyrnas Unedig o sicrhau ymrwymadau tuag at ryngrwyd agored a sicrhau diogelwch defnyddwyr ar-lein.

Pennod 5: Fframwaith Rheoleiddio – Adran 5: Gwasanaethau Ariannol

Y Rheolau

Mae mynediad at y farchnad gwasanaethau ariannol yn amodol ar neilltuo mesurau darbodus yn llwyr²³ gan sicrhau y bydd awdurdodau rheoleiddio a goruchwylio'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn gallu gweithredu lle bo angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol, integreidd y farchnad a diogelu buddsoddwyr a defnyddwyr.

Mae'r bennod hon yn cynnwys darpariaeth sy'n hwyluso'r gwaith o ddiogelu cyfrinachedd materion a chyfrifon defnyddwyr unigol ac mae unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu berchnogol sydd ym meddiant endidau cyhoeddus wedi'i chynnwys yn y Cytundeb.

Mae'r Cytundeb hefyd yn cynnwys ymrwymiad i'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wneud eu gorau glas i sicrhau eu bod yn defnyddio safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol yn y sector gwasanaethau ariannol ac yn eu rhoi ar waith ar gyfer rheoleiddio a goruchwylio, atal gwyngalchu arian ac ariannu gwrthderfysgaeth ac ar gyfer mynd i'r afael ag efadu ac osgoi trethi.

Mae'n ofynnol i bob Parti (y Deyrnas Unedig ac Aelod-wladwriaeth berthnasol yr Undeb Ewropeaidd) sicrhau, lle bo'r Parti'n gofyn am aelodaeth, cyfranogiad neu fynediad at sefydliad hunan-reoleiddio i gyflenwi gwasanaethau ariannol yn ei diriogaeth, bod y sefydliad hwnnw'n cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â thriniaeth genedlaethol a thriniaeth y wlad a ffefrir fwyaf. Mae hyn yn golygu na ellir gwahaniaethu yn erbyn cwmnïau'r Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd (ac fel arall) oherwydd eu cenedligrwydd (a elwir yn driniaeth genedlaethol) a gallant fanteisio ar unrhyw delerau mwy ffafriol yn y dyfodol a negodir naill ai gan y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd mewn cytundebau masnach (a elwir y 'wlad a ffefrir fwyaf').

Pan fydd cyflenwyr gwasanaethau ariannol y Deyrnas Unedig/Undeb Ewropeaidd wedi cael eu sefydlu yn nhiriogaeth y Parti arall, mae'n rhaid i'r Parti hwnnw weithredu'n unol ag egwyddorion triniaeth genedlaethol. Felly, mae'n rhaid iddyn nhw ganiatáu i gyflenwyr o'r fath gyflenwi unrhyw wasanaeth ariannol newydd y byddent yn caniatáu i'w cyflenwyr gwasanaeth ariannol eu hunain ei ddarparu yn unol â'i gyfraith, ar yr amod nad yw cyflwyno'r gwasanaeth ariannol newydd yn golygu mabwysiadu cyfraith newydd na diwygio cyfraith bresennol. Rhaid iddyn nhw hefyd roi mynediad i gyflenwyr o'r fath at systemau talu a chlirio a fydd yn cael eu rhedeg gan endidau cyhoeddus yn ogystal ag at gyllid swyddogol a chyfleusterau ail-gyllido sydd ar gael fel rhan o drefniadau busnes arferol.

Mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn cytuno mewn datganiad nad yw'n rhwymol i sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithredu rheoleiddiol erbyn mis Mawrth 2021 drwy rannu gwybodaeth a deialog ddwyochrog. Mae'r datganiad yn atgyfnerthu uniondeb fframweithiau cyfwerthedd awtonomaidd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

23 Mae'r neilltuo darbodus yn adlewyrchu'r sefyllfa o dan Atodiad ar Wasanaethau Ariannol Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS) Sefydliad Masnach y Byd. O ystyried rôl hanfodol y sector ariannol ar gyfer sefydlogrwydd economaidd cyffredinol, mae llywodraethau ledled y byd yn rheoleiddio banciau, cwmnïau yswiriant a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill yn agos. Bwriad yr Atodiad ar Wasanaethau Ariannol yn bennaf yw egluro rhai darpariaethau GATS craidd fel y maen nhw'n berthnasol i wasanaethau ariannol. Un o'r elfennau canolog yw'r hyn a elwir yn "neilltuo darbodus". Yn ei hanfod, mae'n cadarnhau "er gwaethaf unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Cytundeb" bod Aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn rhydd i gymryd camau darbodus i ddiogelu buddsoddwyr, adnewwyr, deiliaid polisi neu unigolion y mae dyletswydd ymddiriedol yn ddyledus iddynt gan gyflenwr gwasanaeth ariannol, neu i sicrhau integreidd a sefydlogrwydd y system ariannol.

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Mae manylion hyn yn dibynnu ar ba wasanaeth ariannol sy'n cael ei gynnig, ond yn gyffredinol er mwyn i fusnesau barhau i gael mynediad at farchnad sengl yr Undeb Ewropeaidd bydd yn rhaid iddynt naill ai gydymffurfio â gofynion gwahanol y 27 Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y gofyniad i sefydlu is-gwmni er mwyn ymgymryd â masnach gwasanaethau neu ddibynnu ar benderfyniadau cyfwerthedd yr Undeb Ewropeaidd (sy'n bell o fod yn bendant a gellir eu diddymu). Fel y nodwyd uchod, hyd at fis Ionawr 2021, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gwneud dau benderfyniad cyfwerthedd â therfyn amser ond mae trafodaethau'r Deyrnas Unedig / Undeb Ewropeaidd ar gyfwerthedd ariannol yn dal i fynd rhagddynt ac efallai y bydd rhagor o benderfyniadau cyfwerthedd yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

Am ragor o arweiniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ewch i'w hadran gwasanaethau ariannol ar eu gwefan.

<https://www.gov.uk/government/collections/financial-services-sector-end-of-transition-period-guidance>

Pennod 5: Fframwaith Rheoleiddio – Adran 7: Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Rheolau

Mae FTA y Deyrnas Unedig-Undeb Ewropeaidd yn mynd ymhellach nag unrhyw un o gytundebau'r Undeb Ewropeaidd wrth ymdrin â gwasanaethau cyfreithiol ond mae'n bwysig nodi y gall Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ddal i osod gwaharddiad llwyr ar gyfreithwyr y Deyrnas Unedig rhag cynghori ar gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd a'u cyfreithiau cenedlaethol eu hunain.

Bydd y Cytundeb yn rhoi'r hawl i gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac eiriolwyr y Deyrnas Unedig roi cyngor i'w cleientiaid ar draws yr Undeb Ewropeaidd ar gyfraith y Deyrnas Unedig a chyfraith ryngwladol gyhoeddus gan ddefnyddio eu teitlau proffesiynol cartref, ac eithrio lle mae Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd wedi gosod cyfyngiadau penodol ar y gweithgarwch hwn, drwy eithriad yn y TCA.

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Pan fydd Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr y Deyrnas Unedig gofrestru er mwyn rhoi cyngor ar gyfraith y Deyrnas Unedig a chyfraith ryngwladol gyhoeddus, mae'r Cytundeb yn nodi'n glir nad yw hyn yn ofyniad i ailgymhwyso na derbyn i'r proffesiwn cyfreithiol lleol, ac eithrio pan fo Aelod-wladwriaethau'r UE wedi nodi eithriadau i'r ymrwymadau.

Fodd bynnag, gall hyd yn oed cyfreithiwr y Deyrnas Unedig sy'n cynghori ar gyfraith y Deyrnas Unedig fod yn ddarostyngedig i reolau penodol. Er enghraifft, yn y Weriniaeth Tsiec, bydd yn rhaid i gyfreithwyr y Deyrnas Unedig fod yn breswylwyr i ddarparu cyngor cyfreithiol, ac yn Awstria mae cyfreithwyr yn cael eu gwahardd yn benodol rhag bod yn breswylwyr ac mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu cyngor cyfreithiol ar sail drawsffiniol. Mewn rhai Aelod-wladwriaethau, bydd cyfreithwyr y Deyrnas Unedig yn gallu hedfan i mewn, rhoi cyngor cyfreithiol, a hedfan allan eto heb drwyddedau gwaith. Mewn achosion eraill, bydd hyn yn amodol ar brawf anghenion economaidd.

I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar ganllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y canlynol:

- cyfreithwyr
- archwilwyr
- Canllawiau gwasanaethau fesul gwlad.

Rhan 2, Teitl III – Masnach Ddigidol

Y Rheolau

Mae'r rhan hon o'r TCA yn nodi'r telerau y gall busnesau eu defnyddio i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau i'w gilydd drwy sianeli digidol, ee dros y rhyngwyd.

Llif data

Mae'r cytundeb yn dangos bod y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi ymrwymo i hwyluso llif data trawsffiniol. Mae'n cynnwys gwaharddiad ar leoleiddio data, sy'n golygu na fydd yn rhaid i gwmnïau yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (ac eithrio dan amgylchiadau penodol) storio na phrosesu data mewn gwlad benodol er mwyn masnachu.

Mae'r Cytundeb yn cynnwys darpariaethau sy'n amddiffyn Eiddo Deallusol cwmnïau gyda gwarant yn erbyn trosglwyddo cod ffynhonnell dan orfod.

Mae darpariaeth newydd hefyd ar ddata llywodraeth agored. Mae hyn yn annog llywodraethau i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar ddata ac i ddarparu gwybodaeth ar ffurf y gall peiriant ei darllen. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i fusnesau sy'n gwneud gwaith ymchwil sy'n gofyn am ddata gan y llywodraeth.

Diogelu'r defnyddiwr, diogelu data a niwed ar-lein

Mae'r TCA yn nodi y dylid sicrhau safonau uchel o ddiogelwch ar gyfer data personol a phreifatrwydd. Mae'r TCA yn cynnwys adrannau ar amddiffyn defnyddwyr ar-lein a darpariaethau gwrth-spam sy'n rhoi diogelwch cadarn i gwsmeriaid wrth brynu gan fusnesau yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rhannau eraill o'r cytundeb (gan gynnwys ar gydweithrediad diogelwch, cydweithrediad tollau a physgota) hefyd yn cynnwys darpariaethau ar rannu data.

Contractau electronig, llofnodion a darparu gwasanaethau'n ddigidol

Mae sicrwydd na fydd y Deyrnas Unedig na'r Undeb Ewropeaidd yn gwahaniaethu yn erbyn llofnodion electronig na dogfennau electronig yn hytrach na dogfennau papur a sicrwydd y gellir cwblhau contractau'n ddigidol, gyda rhai eithriadau, ee ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, hapchwarae a darlledu²⁴.

Mae rhwymedigaeth ar y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd i gydweithredu ar ddatblygu technolegau newydd a chefnogi deialog gyfatebol rhwng cyrff cyhoeddus a phreifat a rheoleiddwyr i ddatblygu technolegau newydd. Dylai'r ddealltwriaeth a'r cydweithrediad cyffredin hwn gefnogi gwaith ymchwil a datblygu cynnyrch yn ogystal â chytuno ar reolau marchnad cydnaws.

²⁴ I weld y rhestr lawn o eithriadau, ewch i'r bennod ar fasnach ddigidol: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/948119/EU-UK_Trade_and_Cooperation_Agreement_24.12.2020.pdf

Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau?

Nod yr adrannau masnach ddigidol yw diogelu ac annog masnach ddigidol, yn ogystal â chaniatáu lle ar gyfer technolegau newydd yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu na ddylai busnesau sy'n masnachu'n electronig rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig wynebu unrhyw rwystrau sylweddol ychwanegol i lif yr wybodaeth a diogelwch yr wybodaeth honno.

Rhan 2, Teitl V – Eiddo Deallusol

Y Rheolau

Mae'r Cytundeb yn cwmpasu ystod eang o hawliau eiddo deallusol, gan gynnwys patentau, nodau masnach, dyluniadau, hawliau heb eu cofrestru fel hawlfraint, cyfrinachau masnach a dyluniadau heb eu cofrestru.

Mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno y byddant yn diogelu eiddo deallusol gwladolion ei gilydd mewn modd nad yw'n ddim llai ffafriol na'r modd y maent yn diogelu eiddo deallusol eu gwladolion eu hunain. Mae'r Cytundeb hefyd yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth am faterion eiddo deallusol sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i fusnesau?

Hawlfraint a hawliau cronfeydd data

Mae'r rhan fwyaf o gyfraith hawlfraint y Deyrnas Unedig yn deillio o gytuniadau rhyngwladol ac nid yw'n ddibynnol ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, un eithriad yw hawliau cronfa ddata sui generis. Ni fydd dinasyddion, trigolion na busnesau'r Deyrnas Unedig yn gymwys i dderbyn na dal hawliau cronfa ddata yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ar gronfeydd data sy'n cael eu creu ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny. Dylai perchnogion cronfeydd data sy'n cael eu creu ar 1 Ionawr neu ar ôl hynny ystyried a allant ddibynnu ar ddulliau eraill o ddiogelu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd – er enghraifft, cytundebau trwyddedu neu hawlfraint lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn cael ei diwygio fel mai dim ond dinasyddion, trigolion a busnesau'r Deyrnas Unedig sy'n gymwys i gael hawliau cronfa ddata yn y Deyrnas Unedig ar gronfeydd data sy'n cael eu creu ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny.

Fodd bynnag, o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, bydd hawliau cronfa ddata a oedd yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd cyn 1 Ionawr 2021 yn parhau i fodoli yn y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd am weddill eu hoes.

Bydd angen caniatâd y deiliad/deiliaid hawl fel o'r blaen ar unrhyw un yn y Deyrnas Unedig sy'n dymuno defnyddio cronfeydd data sy'n cael eu diogelu gan yr hawliau hyn.

Hawlfraint mewn cronfeydd data

Nid yw diogelu hawlfraint cronfeydd data yn y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd wedi newid gan ei bod yn parhau i gael ei llywodraethu gan gytuniadau rhyngwladol ac nid yw gwarchodaeth a hawliau yn dibynnu ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd²⁵.

Rhan 4 Cydweithredu Thematig

Teitl II Seiberddiogelwch

Mae'r TCA yn creu fframwaith ar gyfer cydweithredu ym maes seiberddiogelwch rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn ogystal â hwyluso cyfranogiad gwirfoddol y Deyrnas Unedig yng ngweithgareddau cyrff arbenigol – er enghraifft, Asiantaeth Seiberddiogelwch yr Undeb Ewropeaidd (ENISA) a'r Grŵp Cydweithredu Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) yn ogystal â chydweithrediad gwirfoddol gyda Thîm Ymateb i Argyfwng Cyfrifiadurol yr Undeb Ewropeaidd (CERT-EU).

25 I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Swyddfa Eiddo Deallusol, adran Brexit yma: <https://www.gov.uk/transition.cy>

Caffael

Mae'r rheolau caffael yn y TCA yn seiliedig ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA), gyda rhai rheolau ychwanegol ar gyfer y caffael dan sylw. Fodd bynnag, mae'r rheolau caffael hyn yn y TCA yn gyson i raddau helaeth â'n rheoliadau caffael domestig ac ni fyddant yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i ddiwygio caffael. Mae'r trothwyon ariannol yr un fath â'r trothwyon yn rheoliadau caffael domestig y Deyrnas Unedig.

Mae'r TCA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio yn y Deyrnas Unedig beidio â thrin cyflenwyr yn y Deyrnas Unedig y mae eu perchnogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn llai ffafriol na chyflenwyr yn y Deyrnas Unedig y mae eu perchnogaeth yn y Deyrnas Unedig yng nghyswllt unrhyw gaffael (yn amodol ar rai eithriadau a nodir yn y GPA, a'r eithriadau ychwanegol yn Atodiad PPROC-1 at y TCA).

Mae'r rhwymedigaeth hon eisoes yn ofyniad yn ein rheoliadau caffael domestig, fodd bynnag, nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd i gaffael sydd heb ei gwmpasu (er enghraifft, y rhai sy'n dod o dan y trothwyon ariannol) felly mae'n ofyniad ychwanegol.

Mae hyn yn gilyddol sydd hefyd yn golygu na ddylai cyflenwyr y mae eu perchnogaeth yn y Deyrnas Unedig sydd â chanolfan yn yr Undeb Ewropeaidd gael eu trin yn llai ffafriol gan awdurdodau contractio yn yr Undeb Ewropeaidd na chyflenwyr y mae eu perchnogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae rhai newidiadau i'r caffael sy'n cael ei gwmpasu sy'n cynnwys gwasanaethau Gofal Iechyd (a bennir yn y TCA fel gwasanaethau iechyd dynol, gwasanaethau gofal iechyd gweinyddol a gwasanaethau cyflenwi staff nyrsio a gwasanaethau cyflenwi staff meddygol) sydd wedi'u heithrio'n benodol.

Dylai busnesau ystyried a gwirio'r ddarpariaeth o ran mynediad i'r farchnad cyn gwneud cynnig am unrhyw gyfleoedd contract yn y sector cyhoeddus yn yr Undeb Ewropeaidd.

